

Tasg 2

Torri calon

Rydych chi wedi colli rhywbeth neu rywun sy'n bwysig iawn yn eich bywyd. Efallai bod eich ffrind gorau wedi symud o'r ardal neu efallai bod eich anifail anwes ar goll neu wedi marw'n sydyn.

1. Meddylwch am eiriau i ddisgrifio'r ffordd rydych chi'n ei deimlo.
2. Gwnewch restr ohonyn nhw ar ddarn o bapur gan roi'r geiriau pwysicaf yn gyntaf.
3. Wedyn, rhowch gynnig ar grynhoi'r geiriau i gyd mewn cerdd fer i ddisgrifio sut ydych chi'n teimlo go iawn.

Cofiwch drïo defnyddio rhai o'r cynhwysion yma yn y gerdd hefyd:

- cymariaethau
- trosiadau
- odlau
- cyflythrennu
- ailadrodd